Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Crud Y Werin

**Aberdaron**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 8BP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Crud Y Werin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Crud Y Werin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 65 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 52 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 4.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 84.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 24/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth a'r staff yn rhoi pwyslais arbennig ar les y disgyblion wrth iddyn nhw anelu at gyflawni arwyddair yr ysgol i gefnogi disgyblion 'O'r crud i'r byd'. O ganlyniad, mae Ysgol Crud y Werin yn amgylchedd dysgu gofalgar. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin oedolion a'i gilydd gyda pharch.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn dod yn gyfathrebwyr hyderus, gan siarad ag ymwelwyr â hyder o oedran ifanc. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen yn dda ac yn cymhwyso eu medrau'n dda i ddod o hyd i wybodaeth. Mae disgyblion ym mlynyddoedd is yr ysgol yn datblygu medrau ysgrifennu yn gadarn. Maent yn adeiladu ar eu cynnydd cynnar o ran adnabod llythrennau a'r seiniau, gan ysgrifennu brawddegau cysylltiedig a pharagraffau byr erbyn diwedd Blwyddyn 2. Fodd bynnag, er bod disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn parhau i ysgrifennu'n hyderus, nid ydynt bob amser yn mireinio eu gwaith yn ddigonol i feistroli ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae'r staff yn cynllunio ac yn cyflwyno gweithgareddau ysgogol sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu a chymhwyso medrau’n briodol. Mae'r disgyblion yn datblygu fel dysgwyr annibynnol o oedran cynnar drwy ddewis eu gweithgareddau eu hunain a dewis yr offer sydd eu hangen arnynt. Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion a'u teuluoedd gyfrannu syniadau am yr hyn y byddent yn hoffi ei ddysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd addas o ddigwyddiadau go iawn neu ddychmygol fel bod disgyblion yn teimlo bod pwrpas gwirioneddol i'w tasgau. At ei gilydd, mae'r gweithgareddau a ddarperir ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol yn amrywio o ran priodolrwydd. Yn yr achosion cryfaf, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau newydd ar lefel briodol a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cael eu cynllunio â digon o bwrpas i roi dilyniant clir i ddisgyblion wrth ddatblygu eu medrau, ac nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel bob amser ynglŷn â'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ystod gwersi.

Mae arweinwyr yn llwyddo i greu a chynnal ethos o weithio fel tîm lle mae cyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi gwaith yr ysgol yn bwrpasol. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr yn gwneud defnydd o ystod eang o strategaethau i werthuso gwaith yr ysgol a'i heffaith ar ddisgyblion yn briodol. Maent yn llwyddo i adnabod llawer o'r meysydd ar gyfer datblygu, er nad ydynt bob amser yn esgor ar welliant yn ddigon cyflym.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol

A2 Sicrhau bod gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad disgyblion mewn gwersi ym mlynyddoedd uwch yr ysgol

A3 Darparu gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn fwriadus dros amser

A4 Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn brydlon ac effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni’n briodol.

Mae bron bob un o’r disgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio’n  naturiol gydag ymwelwyr am eu gwaith a phrofiadau yn yr ysgol. Maent yn cyfathrebu i bwrpasau gwahanol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn cyfrannu at fideo yn llwyddiannus i egluro sut i dyfu llysiau a ffrwythau, ac mae’r disgyblion hynaf yn cyflwyno gwybodaeth am yr ysgol trwy bodlediad. Maent yn dewis geirfa yn gynyddol bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio iaith berswadiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn dod i adnabod y synau mae llythrennau gwahanol yn eu gwneud o oedran ifanc, ac yn dod yn ddarllenwyr cynyddol hyderus erbyn diwedd Blwyddyn 2. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i wahanol bwrpasau, er enghraifft i ganfod gwybodaeth ar y we.

Mae disgyblion ym mlynyddoedd is yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n addas. Maent yn llunio brawddegau yn gynyddol gywir, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, yn dechrau ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu erthygl papur newydd am y fuwch wnaeth ddodwy wy ac yn dechrau defnyddio idiomau’n wybodus. Maent yn dechrau cymhwyso medrau ysgrifennu’n gynyddol annibynnol wrth chwarae yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur tra’n chwarae rôl byw mewn iglw.

Mae disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn datblygu eu geirfa’n briodol ac yn dechrau meddwl am y darllenwr wrth ysgrifennu. Mae llawer yn ysgrifennu gyda lefel addas o gywirdeb, er enghraifft gan atalnodi’n briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i fireinio a gwella eu gwaith yn ddigon rheolaidd er mwyn meistroli ffurfiau ysgrifennu gwahanol. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu’n addas mewn gwaith ar draws y cwricwlwm wrth ysgrifennu paragraffau byr, er enghraifft wrth greu taflen ffeithiau sy’n disgrifio cestyll Cymru. Fodd bynnag, nid ydynt yn dyfalbarhau i greu testunau estynedig yn ddigon cyson, yn enwedig wrth ymateb i weithgareddau annibynnol.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn addas, ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau yn ardaloedd y dosbarth. Er enghraifft, maent yn cofnodi pa ddeunydd yw’r ynysydd gorau trwy fesur sawl milimetr o ddŵr sy’n cael ei gynhyrchu wrth i rew doddi. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae disgyblion yn ymarfer medrau rhifedd mewn ystod gyfyngedig o gyd-destunau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon hyderus.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau corfforol yn addas. Mae’r disgyblion ieuangaf yn datblygu medrau modur mân yn gadarn, er enghraifft wrth wneud llythrennau allan o glai. Mae bron bob un o’r disgyblion hynaf yn manteisio ar gyfleoedd i redeg milltir ar dir yr ysgol yn ddyddiol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y disgyblion yn datblygu'n briodol. Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae disgyblion yn cymysgu paent er mwyn creu darn o waith celf sy'n dangos golau'r gogledd. Maent yn efelychu gwaith celf artist lleol yn grefftus, ac yn defnyddio clai i greu mapiau sy'n dangos Cymru heddiw ac yn y gorffennol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol priodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu hyder yn addas i anfon tegan rhaglenadwy i gyrchfan penodol er mwyn paru geiriau sy'n odli. Maent yn defnyddio pecyn animeiddio i rannu newyddion am anifeiliaid yn y sŵ. Mae disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn creu clipiau fideo syml, er enghraifft i rannu gwybodaeth am gadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cyfleu gwybodaeth trwy greu pamffledi i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, gan ychwanegu testun a lluniau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn falch iawn o'u hysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn yr amgylchedd hamddenol a theuluol sydd ynddi. Maent yn dangos gofal a pharch uchel at bawb o fewn y gymuned ofalgar hon, gan gefnogi ei gilydd yn gadarn.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn ac maent yn dangos cwrteisi a pharch tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn gwerthfawrogi'r gofal maent yn ei gael o fewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cefnogi'r rhai ieuengaf yn ystod amser egwyl. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol wrth drafod eu teimladau gydag eraill a dangos empathi i'w cyfoedion.

Mae bron bob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Maent yn ymroi i brofiadau newydd gyda brwdfrydedd ac yn cydweithio'n effeithiol ag eraill gan ddangos parch, gofal a chefnogaeth i'w cyfoedion. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrannu at ysgrifennu cerdd am Gymru.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio a chymhwyso ystod dda o fedrau a dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gasglu paent ac offer i wneud llun o olau'r gogledd gan gymysgu paent i wneud lliwiau gwahanol. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau dysgu annibynnol yn briodol, er enghraifft trwy wneud defnydd priodol o adnoddau i gefnogi eu dysgu, gan gynnwys cyfeirio at eu llyfrau targedau yn ystod sesiynau. Er hyn, nid ydynt bob tro'n ymroi'n llwyr i dasgau a phrofiadau dysgu hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, nid ydynt yn adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i holi ac adborth llafar gan yr athrawon yn ystod gwersi. Pan gânt y cyfle, maent yn addasu eu gwaith yn briodol yn dilyn adborth, er enghraifft trwy fireinio atalnodi. Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd balchder yng nghyflawniad eu gwaith er nid yw'r disgyblion hynaf bob tro'n sicrhau bod y cyflwyniad yn ddigon taclus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u ffitrwydd. Maent yn deall yr angen am ddiet cytbwys ac am

yr angen i gadw'n heini, gan wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta ac yfed. Yn ogystal, maent yn ymrwymo i weithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol, er enghraifft trwy redeg milltir y dydd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel ar-lein.

Mae barn a safbwyntiau disgyblion yn cael lle cadarn yn yr ysgol ac maent yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynnig syniadau wrth gynllunio themâu a'r 'Cwestiwn Mawr' sy'n cynnig symbyliad cychwynnol i'r gwaith. Mae hyn hefyd yn cryfhau'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol ac yn annog rhieni a gwarchodwyr i gyfrannu at addysg eu plant.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor ysgol iach a'r cyngor gwyrdd yn deall eu rolau a'u dyletswyddau'n briodol ac yn rhannu eu cynlluniau'n frwdfrydig â'u cyfoedion. Yn ogystal, maent yn trefnu ystod addas o weithgareddau i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion pwysig, er enghraifft trwy drefnu diwrnod beicio i'r ysgol er mwyn annog disgyblion i gadw'n heini. Maent yn cyfarfod â llywodraethwyr i rannu syniadau am ddatblygu'r ysgol.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb mewn ysgolion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthnasoedd gwaith arbennig o dda yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol, ac mae'r holl staff yn trin y disgyblion â pharch. Mae'r dosbarthiadau yn fannau croesawgar. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n hyderus i ateb cwestiynau a chynnig barn.

Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau holi'n effeithiol mewn gwersi. Er enghraifft, maent yn holi disgyblion am ddysgu blaenorol, gan eu hannog i ymestyn eu hymatebion. Mae'r staff yn modelu iaith yn fuddiol, ac yn manteisio ar gyfleoedd i fwydo geirfa newydd Cymraeg a Saesneg yn grefftus. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu'n briodol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu amdano, er enghraifft wrth adnabod arlunwyr lleol y gall y disgyblion eu hefelychu yn eu gwaith celf. Maent yn amrywio'r dull gweithio yn bwrpasol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cydweithio'n hynod effeithiol. Maent yn gwneud defnydd buddiol o'r ardaloedd tu allan er mwyn galluogi disgyblion i weithio mewn modd gweithredol ac ymarferol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf arbrofi a magu eu hannibyniaeth yn yr ardaloedd tu allan, heb arweiniad staff.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o ddigwyddiadau dychmygol er mwyn bachu diddordeb y disgyblion yn eu gwaith. Yn yr arferion gorau, mae'r gweithgareddau dysgu a ddarperir yn herio'r disgyblion i ddwysàu eu dealltwriaeth ac i gymhwyso'u medrau'n bwrpasol. Wrth gyflwyno gweithgareddau dysgu, mae'r athrawon yn trafod meini prawf llwyddiant gweithgareddau gyda disgyblion yn fuddiol. Fodd bynnag, mae addasrwydd y gweithgareddau ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol yn rhy anghyson ac nid yw disgwyliadau'r athrawon bob tro'n ddigon uchel. Yn

ogystal, nid yw'r gweithgareddau bob tro'n adeiladu'n ddigon bwriadus ar wybodaeth gefndirol a dysgu blaenorol y disgyblion. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn oddefol am gyfnodau.

Mae staff yn cynllunio'n addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion ieuengaf yr ysgol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu wrth ddweud stori anifail sy'n dianc o'r sŵ. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd wrth fesur lluniau o anifeiliaid ar fuarth yr ysgol, ac i ddatblygu medrau creadigol wrth greu cartref clud a diogel ar gyfer llygoden. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion hynaf yr ysgol yn anghyson. Er enghraifft, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau ysgrifennu dros amser, nac i gymhwyso medrau rhifedd i'w gwaith ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae staff yn darparu adborth gwerthfawr i ddisgyblion ar lafar. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion yn gwella eu gwaith o ganlyniad i'r cymorth. Yn ogystal, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o dargedau personol. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob tro'n rhoi digon o bwyslais ar wella a mireinio cynnwys gwaith. O ganlyniad, yn rhy aml, mae'r dysgu'n symud ymlaen heb i ddisgyblion ddatblygu medrau penodol hyd eithaf eu gallu, yn enwedig ym mlynyddoedd uwch yr ysgol. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i feistroli ffurfiau ysgrifennu estynedig gwahanol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau i'r disgyblion. Mae staff yn darparu profiadau sy'n dathlu'r ardal leol yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu cyflwyniadau digidol am nodweddion Aberdaron, fel llwybr yr arfordir a busnesau lleol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am gredoau eraill, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio i brif nodweddion crefyddau'r byd a chyflwyno eu canfyddiadau trwy bosteri a phodlediadau. Mae'r profiadau cwricwlaidd yn hybu dealltwriaeth disgyblion o les a chadw'n heini yn briodol. Er enghraifft, mae staff yn darparu sesiynau i godi ymwybyddiaeth o gyffwrdd priodol ac amhriodol, ac i hybu bwyta'n iach. Maent yn darparu sesiynau addysg gorfforol rheolaidd gyda ffocws ar ystod eang o weithgareddau corfforol fel gymnasteg, nofio, athletau a chwaraeon.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a'r disgyblion yn arwain at gymuned ofalgar sydd ag ethos cyfeillgar a chynnes. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY, gan gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth wedi eu teilwra er mwyn ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol. Mae'r cydlynydd ADY yn cefnogi athrawon a chymorthyddion yn effeithiol er mwyn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a darparu cefnogaeth bwrpasol iddynt. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau er mwyn cefnogi'r disgyblion. Mae staff yn adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae athrawon yn darparu ystod dda o gyfleoedd i annog disgyblion i gadw'n heini ac i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles, er enghraifft trwy ymgymryd â gweithgareddau

ioga, rhedeg milltir yn ddyddiol a sesiynau ymarfer corff. Maent hefyd yn darparu cymorth buddiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol ddisgyblion trwy ymyraethau pwrpasol. Maent yn darparu cymorth a chysur i ddisgyblion yn ôl yr angen gan ddefnyddio ystod dda o strategaethau, er enghraifft trwy gynnig cyfleoedd i ddisgyblion rannu pryderon neu gorbryder gyda chyfoedion neu staff. Mae adnoddau fel y 'Llecyn Llonyddu' yn cefnogi disgyblion yn fuddiol trwy sicrhau bod man tawel ar gael os ydynt yn poeni am unrhyw beth.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant. Mae ymweliadau buddiol i'r pentref i ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn cefnogi eu balchder yn eu cymuned yn gadarn, er enghraifft trwy gynnal gweithgareddau ar y traeth a llwybr yr arfordir gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chasglu sbwriel. Dathlir eu Cymreictod yn llwyddiannus trwy gynnig profiadau dysgu buddiol ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol fel Oriel Plas Glyn y Weddw ac Amgueddfa Lloyd George.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli sy'n sicrhau amser i ddisgyblion fyfyrio a pharchu safbwyntiau eraill. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion hynaf gynllunio a chynnal sesiynau cyd-addoli ysgol gyfan, gan ddefnyddio eu medrau'n grefftus i gyflwyno negeseuon pwysig i'w cyfoedion.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am gredoau crefyddau eraill trwy ddarganfod mwy am eu traddodiadau a'u prif ddathliadau. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd ehangach, gan gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wedi datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn dysgu am fywyd Rosa Parks yn America yn ystod y 1960au ac am sut mae hawliau plant yn cael effaith ar eu bywydau. Yn ogystal, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu iaith arwyddo sy'n cryfhau eu dealltwriaeth o gynhwysiant yn gadarn.

Mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr a siaradwyr gwadd i'r ysgol er mwyn cyfoethogi'r dysgu; er enghraifft, mae hanesydd lleol wedi rhannu gwybodaeth am hanes Aberdaron gyda'r disgyblion. Yn ogystal, maent yn trefnu ymweliadau buddiol i ddisgyblion yn seiliedig ar eu themâu tymhorol, sy'n hyrwyddo a chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, trefnwyd ymweliad â chanolfan natur ac anifeiliaid er mwyn sbarduno a chynnig profiadau byw i'r disgyblion ieuengaf.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, ac mae'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau perthnasol yn rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth, ynghyd â'r corff llywodraethol, weledigaeth glir yn seiliedig ar wireddu egwyddor y 'tair h' sef, 'hapus, hyderus a bod yn hydwyth'. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n cynnig sail dda ar gyfer datblygu dinasyddion cyfrifol y dyfodol. Mae arweinwyr yn modelu ymddygiadau positif, gan drin eraill gyda chwrteisi a pharch. Mae'r pennaeth yn gosod lles a datblygiad y staff yn ganolog i'w gwaith. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac mae'r ymdeimlad o weithio fel tîm yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae’r berthynas â rhieni yn un agos a chefnogol. Mae’r Gymdeithas Rhieni yn un weithgar sy’n cefnogi’r ysgol yn effeithiol, er enghraifft drwy weithgareddau codi arian a thrwy estyn cymorth ymarferol i ddatblygu ardal allanol yr ysgol a chynorthwyo ar deithiau addysgol. Mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth fuddiol gyda rhieni ynghylch sut i gefnogi dysgu eu plant, er enghraifft wrth godi ymwybyddiaeth o strategaethau darllen. Mae’r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, er enghraifft ar gyfer dylunio’r Cwricwlwm i Gymru.

Mae arweinwyr wedi cymryd camau pendant i roi’r Cwricwlwm i Gymru ar waith ac yn dangos parodrwydd i dreialu dulliau gwahanol. Mae’r llywodraethwyr, y disgyblion a rhieni wedi cyfrannu at y broses o ddylunio’r cwricwlwm drwy gyfrannu eu syniadau, er enghraifft trwy fynychu prynhawn agored. O ganlyniad, mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm sy’n darparu ystod eang o brofiadau i’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn seliedig ar ystod dda o weithgareddau pwrpasol, er enghraifft craffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi. Mae’r holl staff yn cyfrannu’n werthfawr i’r broses. Mae’r llywodraethwyr yn cyfrannu’n fuddiol, er enghraifft drwy ymgymryd â theithiau dysgu. Trwy’r prosesau hyn, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o brif gryfderau a meysydd i’w gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro’n mynd i’r afael yn ddigon effeithol a phrydlon i wella elfennau pwysig o’r ddarpariaeth. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi llwyddo i gynnal gwelliannau mewn perthynas ag argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae’r corff llywodraethol yn chwarae rhan gefnogol ym mywyd a gwaith yr ysgol a manteisir yn fwriadus ar eu harbenigeddau, eu cefndir a’u profiad eang. Drwy ddyrannu cyfrifoldebau’n bwrpasol, a gweithredu o fewn is-bwyllgorau, maent yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol a phriodol. Yn dilyn heriau cyfnod y pandemig, maent wedi ailafael yn gynyddol yn yr elfen ‘cyfeillion beirniadol’ drwy fynychu teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynllunio ac yn monitro cyllidebau’n ofalus, er enghraifft wrth roi ystyriaeth fanwl i’r niferoedd ar gofrestr yr ysgol a‘r effaith ar drefniadaeth staffio'r ysgol. Yn yr un modd, gwneir defnydd addas o’r grantiau fel y Grant Gwella Addysg sy’n cyfrannu at gyflogi cymorthyddion dysgu sy’n darparu rhaglenni ymyrraeth ar gyfer grwpiau penodol.

Mae’r holl staff yn cael eu hannog a’u cefnogi gan arweinwyr yr ysgol i fyfyrio a datblygu eu harfer mewn amgylchedd cefnogol a chynhaliol. Maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o brofiadau dysgu proffesiynol sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau’r ysgol. Mae’r cymorthyddion yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu rolau, er enghraifft wrth gyflwyno rhaglenni i hyrwyddo lles emosiynol disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  28/03/2023